Docusign Envelope ID: AF6B9FD4-07B8-49EE-9CF2-6337853DFA3C

# GORCHYMYN SIR GAERFYRDDIN (LLWYBRAU TROED CYHOEDDUS 36/114 (YN RHANNOL) A 36/115 (YN RHANNOL) LLWYNHENDY, LLANELLI ) GWAHARDDIAD DROS DRO AR GERDDWYR 2025

---

**YN GYMAINT Â BOD** Cyngor Sir Caerfyrddin (y cyfeirir ato fel "y Cyngor" o hyn ymlaen), sef yr Awdurdod Priffyrdd ar gyfer y darnau hynny o lwybrau troed:

a. rhif 36/114 sy'n ymestyn o'r ffordd bengaead i'r gogledd-orllewin o Rif 3 Clos y Berllan, Llwynhendy am bellter o oddeutu cant ac undeg un (111) o fetrau i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain ac wedyn yn troi i gyfeiriad y gogledd-orllewin trwy ddatblygiad tai i ffin gogledd-orllewiniol yr un datblygiad hwnnw ac;

b. rhif 36/115 sy'n ymestyn o Llys Pendderi, Llanelli i gyfeiriad cyffredinol y gogledd-orllewin ar hyd llwybr ger ffin ogledd-ddwyreiniol Rhif 1 Llys Pendderi cyn troi i gyfeiriad y de-orllewin ar hyd ffin gefn yr eiddo hwnnw ac wedyn parhau i gyfeiriad y gogledd-orllewin ac wedyn y de-orllewin hyd at y gyffordd â llwybr troed 36/114

wedi'i fodloni y dylid cyfyngu ar gerddwyr ar y darnau dan sylw o’r llwybrau troed yn sgil y gwaith datblygu sy'n cael ei wneud ar dir lle mae pob darn o’r llwybrau troed.

**YN AWR** gan hynny, mae'r Cyngor, gan ymarfer ei bwerau o dan Adran 14(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 a'r holl bwerau galluogol eraill, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

l. Ni chaniateir i neb deithio ar hyd:

a) Y darn hwnnw o Lwybr Troed rhif 36/114 sy'n ymestyn o'r ffordd bengaead i'r gogledd-orllewin o Rif 3 Clos y Berllan, Llwynhendy am bellter o oddeutu cant ac undeg un (111) o fetrau i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain ac wedyn yn troi i gyfeiriad y gogledd-orllewin trwy ddatblygiad tai i ffin gogledd-orllewinol yr un datblygiad hwnnw; ac

Docusign Envelope ID: AF6B9FD4-07B8-49EE-9CF2-6337853DFA3C

b) Y darn hwnnw o Lwybr Troed rhif 36/115 sy'n ymestyn o Llys Pendderi, Llanelli i gyfeiriad cyffredinol y gogledd-orllewin ar hyd llwybr ger ffin ogledd-ddwyreiniol Rhif 1 Llys Pendderi cyn troi i gyfeiriad y de-orllewin ar hyd ffin gefn yr eiddo hwnnw cyn parhau eto i gyfeiriad y gogledd-orllewin ac wedyn y ogledd-orllewin hyd at y gyffordd â llwybr troed 36/114

2. Bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar yr 20fed o Fehefin, Dwy Fil a Dau Ddeg Pump, a gellir cyfeirio ato fel Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Llwybrau Troed Cyhoeddus 36/114 (Yn Rhannol) a 36/115 (Yn Rhannol) Llwynhendy, Llanelli) Gwaharddiad Dros Dro ar Gerddwyr 2025

19150




**Rhoddwyd SÊL GYFFREDIN** )
**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN** )
**ar y ddogfen hon** )
ar yr 20fed o Fehefin 2025 )
ym mhresenoldeb: - )

Steven P Murphy

---

**Stephen P Murphy**
**Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil**